

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 8fed o Orffennaf 2021

## Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Datgan buddiant
4. Derbyn cofnodion 10fed o Fehefin 2021
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Materion ariannol
  - Cyfarfod IBC 30ain o Fehefin 2021
    - i. Mantolen ariannol
    - ii. Adroddiad blynyddol ag Archwilwyr Mewnnol
    - iii. Ceisiadau Nawdd
    - iv. Taliadau
    - v. Canolfan Newydd
7. Logo newydd
8. Cynllunio
  - Cais Cynllunio C21/0634/25/CC Maes y Ffynnon Ffordd Penrhos Bangor LL57 2DW Cais i Dorri 2 goeden Dderw sy'n destyn Gorchymyn Gwarchod Coed 3/TPO/A35
9. Materion y Clerc
  - Diffib 2021-22
  - Septic Tanc Diweddariad
  - Cysgodfan Penrhos dinas Bangor / Cyngor Pentir
  - Presennoldeb mewn cyfarfodydd
  - Mast G5 Goetre/Ysbyty Gwynedd
  - Cais Cynllunio Hafod y Nant Rhydygroes
  - Cofrestr Risg
  - Llythyr Cyngor Cymuned Llandygai
10. Materion y Cynghorwyr
  - Cyng E Jones Diweddariad cofrestru Llwybr Treborth
  - Cyng L A James Trwyddedu Tafarn Y Faenol - oes ymateb gan y trigolion

# Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 10fed o Fehefin 2021

1. **Presennol:** Cyngorwyr E. Jones; M. Baines; J. Pierce; D. W. Jones; B. Jones J Lewis; a'r Clerc E Jones
2. **Ymddiheuriadau:**  
Cyngorwyr L.A. James; D. Jones-Morris; M. Lynch; J. Griffiths; H Griffiths; T A Williams;  
  
Cadeirwyd y cyfarfod a traddodwyd gweddi gan y Cyng D W Jones
3. **Datgan buddiant**  
Esbonwyd y broses ynglyn a datgan buddiant yn rhithiol unwaith eto.  
Datgan ar lafar i'r Clerc allu ei gofnodi ag i'r Cyngorydd wedyn anfon ffurflen wedi ei llofnodi  
Datganiad gan Cyng J. Lewis ei fod yn aelod o Grwp Parchu Pentir wrth ymdrin a pwynt 9 Diffib  
Pentir **Ni fyddai'n cymeryd rhan yn y drafodaeth**
4. **Derbyn cofnodion** 13eg o Fai 2021 – Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir  
Cyng E. Jones yn cynnig a Cyng B. Jones yn eilio
5. **Materion yn codi o'r cofnodion**  
Dim nad oedd yn ymddangos yn yr Agenda
6. **Materion ariannol**  
Adroddiad o Gyfarfod IBC 26ain o Fai 2021  
Traeliwyd rhan gyntaf y cyfarfod yng nghwmni swyddogion Cyng Cym Llanrug ddaeth i esbonio eu trefn  
o gofnodi manylion y Fynwent yn electronig  
Rhoddwyd cyflwyniad i sistem gofnodi electronig sydd gan Cyngor Cymuned Llanrug oedd yn sicr yn  
agoriad llygaid ag o bosib y ffordd ymlaen i foderneiddio y sistem gofnodi angladdau/beddi a.y.y.b i'r  
dyfodol.  
Nid oedd sicrwydd os oedd y sistem yn diddymu y cofnodi ysgrifenedig presennol a allai felly olygu  
ychwanegu at y gwaith cofnodi yn hytrach na lleihau  
**Yn sgil hynny cytunwyd i gadw'r sistem mewn cof ond peidio symud ymlaen hyd nes byddai eglurder  
pellach**
  - i. Mantolen ariannol – Cafodd y fantolen ariannol ei rhannu ar y sgrin yn dangos  
£44,664.53 yn y cyfrif Cyfredol yn dilyn derbyn haner cyntaf y Praesept a £25,037.81  
Argymell trosglwyddo £10K i'r Cyfrif cadw ar gyfer talu am waith ychwanegol yn y  
ganolfan newydd **Cytunwyd**  
**Clerc i drefu'r trosglwyddiad**
  - ii. Cais am nawdd wedi dod i law o Ty Gobaith ond dim mantolen ariannol  
Argymhellwyd i'r Clerc gysylltu a chyflwyno i'r Cyngor Llawn os byddai ymateb  
Ymateb wedi cyrraedd.  
**Cynnigwyd ag eilwyd cyfrannu £300.00 Cytunwyd yn unfrydol**
  - iii. Cadarnhau talu'r taliadau oedd angen sylw  
BDO Dim i adrodd yn ol arno
7. **Logo** Bu trafodaeth yn yr IBC ynglyn a pa ddyluniad fyddai orau ganddynt  
Dewiswyd 3 i'w argymhell i'r Cyngor Llawn a derbynwyd yr argymhelliad hynny  
**Cyng L A James fydd yn cysylltu nol hefo'r dylunyyd**
8. **Cynllunio**
  - a. Cais Cynllunio C21/0485/25/LL Lleoliad: Hafod y Nant Rhydygores Pentir Bangor, LL57 4YA  
Bwriad: Codi sied amaethyddol ar gyfer lloches i da byw, cadw porthiant a pheiriannau ynghyd  
a gweithdy cysylltiedig.

Bu cryn drafod am y cynllun yn sgil y ffaith nad yw'r ymgeisydd yn ffermio ond yn berchen ar beiriannau trymion ar safle arall **Gwrthwynebu**

- b. Cais Cynllunio C21/0536/25/DT Lleoliad : 3, Bro Infryn Glasinfryn Bangor LL574UR Bwriad Dymchwel yr estyniad cefn presennol a chodi estyniad deulawr yn ei le **Dim gwrthwynebiad**

## 9. Materion y Clerc

- **Gohebiaeth** Mantolen ariannol Ty Gobaith / Hope House wedi ei rannu yn electronig ar gyfer ystyried eu cais am nawdd
- **Yswiriant** Wedi ei drefnu drwy Cwmni Hiscox am 2021-22
- **Diffib Pentir Ni chymerodd Cyng J Lewis ran yn y drafodaeth yma**  
Cytunwyd llynedd y byddai Cyngor Pentir yn ymgymeryd a gosod peiriant Diffib yn y Ciosg pan fyddai cyutndeb Parchu Pentir yn dod i ben. Mi oedd hynny wedi digwydd heb fawr o rybudd a felly rhaid oedd symud yn sydyn ar y mater.  
**Cytunwyd prynu a gosod 1 peiriant newydd**
  - **Diffibs 2021-22** Nid oedd lleoliadau wedi ei adnabod ar hyn o bryd i archebu mwy er fod Stad Goetre Uchaf wedi ei adnabod nid oedd y ffyrdd ar hyn o bryd wedi cael ei mabwysiadu a felly yn dal yn stad breifat
- **Blodau gwyllt** Hadau wedi eu heu
- **Septic Tanc** Arbennigwr wedi ymweld a gwneud dyluniad o'r sustem fydd yn cyfarch anghenion Dwr Cymru
- **Aesu Risg** Y Clerc angen rannu y gofrestr yn electronig er mwyn i bawb gael cyfle i edrych drosti ag adnabod sut i gyfarch rai o'r camau gweithredu sydd wedi ei adnabod **mewn coch** a lleihau y risg benodol honno

## 10. Materion y Cyngorwyr

- a. Cyng E Jones Diweddariad cofrestru Llwybr Treborth  
Llawer o ffurflenni datgan defnydd wedi ei dychwelyd a mwy i ddod.  
Ceisio cael y gweddill i mewn erbyn diwedd Mehefin ag wedyn trefnu llythyr i'w gyflwyno i Cyngor Gwynedd hefo'r ffurflenni i gyd  
Ychwnageodd Cyng M Baines bod rhai o drigolion Treborth yn bryderus ynglyn a gadael eu cyfeiriadau wrth ystyried agwedd y perchenog tuag at gerddwyr
- b. Cyng J Griffiths
- i. Cyflwr wyneb y trac neu lwybr cyhoeddus Tros y Waen Cyng wedi e-bostio ynglyn a hyn dauddydd cyn y cyfarfod a'r Clerc wedi cael nodyn yn cadarnhau fod yna arwychwylid safle ym digwydd

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10